

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran

Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH

Jona 1: 1-9

Stori 1 Jona yn y Llong

Roedd Jona yn gwasanaethu'r Arglwydd Dduw drwy gyhoeddi negeseuon Duw i'r bobl.

C Defnyddiwch yr wyddor luniau i ganfod beth yw'r enw ar y swydd hon yn y Beibl.



3

ADNOD

ALLWEDDOL

Jona 1: 3

Gofynnwch am
help i chwilio
am yr adnod hon.

Un tro, daeth gair Duw at Jona. Dywedodd Duw wrtho am fynd i ddinas fawr o'r enw Ninefe. Yno, roedd i rybuddio'r bobl ddrwg fod Duw yn mynd i'w cosbi, oherwydd roedd Ef wedi gweld eu pechodau.


C Wrth bwy y siaradodd Duw?
I ble'r anfonodd Duw ef?

J _ _ a

N _ _ _ _ e

4

Er hynny, bu Jona yn anufudd i orchymyn Duw, a phenderfynodd redeg i ffwrdd i Darsis. (Efallai mai'r rheswm dros hyn oedd bod trigolion Ninefe yn elynion i'w bobl ef a bod Jona'n teimlo eu bod yn haeddu cael eu cosbi.) Aeth i lawr i Jopa, wrth ymyl y môr, a thalodd am gael hwylio ar long i Darsis.



C Rhowch y rhif cywir ym mhob un o'r blychau isod.

1 Ninefe


2 Tarsis

3 Jopa

Bu Jona yn anufudd i Dduw oherwydd rhedodd i ffwrdd yn lle mynd i .

Talodd i hwyllo ar long o i .

4




Wedi iddo fynd ar fwrdd y llong, aeth Jona i orwedd a syrthiodd i drwmgwsg. Tra'r oedd yn cysgu, anfonodd Duw storm fawr. Roedd y llong yn cael ei hyrddio gymaint gan y storm nes bod y morwyr yn meddwl y byddai'n suddo a hwythau'n boddi!

Yna, daeth y capten at Jona a'i

ddeffro a gorchmynnodd iddo alw ar ei Dduw.

Teimlai'r holl forwyr yn sicr mai bai Jona oedd y storm a gofynnon nhw nifer o gwestiynau iddo:- "Beth yw dy waith?", "O ble'r wyt ti'n dod?", "Beth wyt ti wedi'i wneud?"

C Ysgrifennwch un o'r cwestiynau a ofynnodd y morwyr i Jona.



3

Dywedodd Jona wrthyn nhw mai Hebrëwr oedd. Dywedodd ei fod yn addoli Duw'r Nefoedd, yr Un a greodd y môr, a bod y storm wedi codi oherwydd iddo fod yn anufudd i Dduw!

C Llanwch y llythrennau sydd ar goll.

6

H _ _ _ _ _ r oedd Jona. Roedd e'n addoli Duw'r N _ _ _ _ _ dd.
Roedd Jona wedi bod yn a _ _ _ _ _ dd i Dduw

Yn yr un ffordd ag y gwelodd Duw y pethau drwg a wnaeth pobl Ninefe a Jona, felly hefyd mae Ef yn gwybod y cyfan am ein pechodau ninnau hefyd!
Mae'n bwysig iawn ein bod yn gwneud yr hyn mae Duw am i ni ei wneud.